Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
CELG(4)-28-14 Papur 2a

## *Cam Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 15,462 | 14,462 | 4,137 | 18,599 |

1. Mae Cam Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg yn cynyddu £4m o'i gymharu â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2015-16, ond mae hyn yn bennaf oherwydd dau drosglwyddiad rheolaidd;
   - £9.867m o'r Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 i gyllido Cymraeg i Oedolion er mwyn lliflinio prosesau ar gyfer y sector;
   - £5.13m o'r hyn sy'n weddill o Grant y Gymraeg mewn Addysg i'r Cam Gweithredu Safonau Addysg, i greu'r Grant Gwella Addysg newydd i ysgolion.

2. Felly bu gostyngiad ar y cyfan o £0.6m yng nghyllidebau'r Gymraeg mewn Addysg, sy'n deillio'n bennaf o'r gostyngiad o £0.5m mewn cyllid ar gyfer Grant y Gymraeg mewn Addysg cyn ei drosglwyddo i'r Cam Gweithredu Safonau Addysg. Ceir gostyngiadau minimol mewn cyllidebau comisiynu adnoddau, cynllunio ac ymchwil, cyfathrebu a marchnata o fewn y Cam Gweithredu, y maent i gyd yn cyfrannu tuag at ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflawni'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac i geisio cynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ein cyfundrefn addysg.

## *Addysg Cyfrwng Cymraeg*

3. Mae Cam Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg sy'n gyfanswm o £18.6m yn 2015-16 yn darparu cymorth i barhau i weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, a bydd cyllidebau'n cael eu blaenoriaethu i feysydd lle gellir cyflawni'r budd mwyaf.

4. Mae cyllidebau eraill o fewn y portffolio Addysg a Sgiliau sy'n cefnogi'r broses o weithredu'r Strategaeth yn cynnwys cyllid i'r canlynol:

   - Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o fewn y llinell wariant Er Mwyn Ein Dyfodol yn y Cam Gweithredu Addysg Uwch, gyda dyraniad dangosol o £8.6m ar gyfer 2015-16;
   - Darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith Cyfrwng Cymraeg o fewn y llinell wariant Dysgu Seiliedig ar Waith yn y Cam Gweithredu Addysg Ôl-16;

- Cam wrth Gam, rhaglen hyfforddi i ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda chyllid o £1.7m wedi'i ddyrannu o linell wariant y Cyfnod Sylfaen o fewn Cam Gweithredu'r Cwricwlwm yn 2015-16.

5. Bydd y broses o weithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn dal i gael ei chefnogi trwy drosglwyddo cyllid sy'n gyfanswm o £5.13m ar gyfer Grant y Gymraeg mewn Addysg i mewn i'r Grant Gwella Ysgolion newydd i ysgolion yn 2015-16.